# Ysgol Gynradd Llandegfan

## *Polisi Cymorth Cyntaf*

Cytunwyd gan Staff: Tachwedd 2017
Mabwysiadwyd gan y Llywodraethwyr: Rhagfyr 2017
Adolygiad nesaf: Rhagfyr 2019

<u>Arwyddwyd</u>

Cadeirydd y Llywodraethwyr: ______________________________

Pennaeth: ______________________________

Mae ADCDF yn bwysig yn ein hysgol am ei fod yn galluogi disgyblion i ddatblygu'r wybodaeth, y gwerthoedd a'r sgiliau i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd rydym yn gwneud pethau, yn unigol a gyda'n gilydd, yn lleol ac yn fyd eang, fydd yn gwella ansawdd bywyd heb niweidio'r blaned i'r dyfodol.

Mae Addysg Dinasyddiaeth Fyd Eang yn galluogi pobl i ddeall y ffactorau byd eang sy'n llunio'u bywydau ac i gywain gwybodaeth, profiadau, sgiliau a gwerthoedd fydd yn eu harfogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau, yn lleol ac yn fyd eang, fydd yn hyrwyddo byd tecach a chynaliadwy.

Mae ADCDF yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion a'r oedolion sy'n gweithio gyda hwy i:

- Ddatblygu medrau, galluoedd ac agweddau yn lleol ac yn fyd eang.
- Ehangu eu profiad o fywyd trwy gyswllt gyda phobl o gefndiroedd gwahanol.
- Fynd i'r afael â materion lleol a byd eang mewn perthynas â chynaliadwyedd, yr amgylched a rhyngddibyniaeth rhyngwladol.
- Edrych ar eu gwerthoedd a'u hunaniaeth fel unigolion ac fel aelodau o gymunedau lleol, cenedlaethol a byd eang a thrwy hynny barchu hunaniaeth a gwerthoedd pobl eraill.
- Cynyddu eu hunan dyb, hyder ac annibyniaeth meddwl.

GWEITHREDU'R POLISI

- Er mwyn addysgu ein disgyblion yn llwyddiannus mewn materion cynaliadwy a byd eang rydym yn cynllunio ac ymgorffori ADCDF i'r cwricwlwm a phob agwedd o fywyd yr ysgol sy'n cynnwys yr ethos, y drefniadaeth a'r rheolaeth. Rhaid i'r ysgol 'wneud' yn ogystal ag 'addysgu'.
- Cymerir agwedd gyfannol (holistig) tuag at addysg ein disgyblion gan sicrhau cyfleoedd lle gall pob pwnc gyfrannu.
- Trwy weithredu'r dull hwn anelwn at sicrhau bod ein disgyblion yn gweld cysylltiadau cyson rhwng meysydd, pynciau a materion fydd yn sicrhau perchnogaeth ar 'y darlun mawr' o'r byd ehangach.
- Sicrheir bod cynnig profiadau yn rhan greiddiol o'n haddysgu ac ni chyfyngir y profiadau hyn i'r ystafell ddosbarth.

Rydym yn gweithredu ar ofynion penodol Rhaglenni Astudio y CC, Gofynion Cyffredin, Sgiliau Allweddol. Manteisio ar ddigwyddiadau / safle / cyfleoedd lleol – e.e. nodi Manteisio ar ddigwyddiadau / dathliadau byd eang.

Mae'r ysgol yn rhan o raglenni penodol sef Ysgolion Gwyrdd er mwyn gofalu am yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol. Mae'r ysgol yn ganolbwynt ar gyfer y gymuned leol. Mae creu cysylltiadau gydag ysgolion lleol a chysylltiadau rhyngwladol yn bwysig fel sail i edrych ar y cysyniad o ryngddibyniaeth a materion cyffredin rhwng yr ysgolion.

CYFLEOEDD ALLGYRSIOL A THU ALLAN I'R YSGOL

Cynigia'r ysgol ddarpariaeth sy'n galluogi'r disgyblion i ehangu eu dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang.

- Rydym yn cymryd rhan yng nghynllun Ysgolion Gwyrdd ac Ysgolion Iach.
- Mae gennnym gysylltiadau gydag ysgolion eraill lleol yn ogystal ag ysgolion tramor.
- Mae strwythur cryf yn ei le i alluogi disgyblion i fynegi barn drwy'r Cyngor Ysgol a'r Cyngor Dosbarth.
- Rydym yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd a blaengareddau megis diwrnod Masnach Deg.

ASESU, COFNODI AC ADRODD

Caiff y gwaith sy'n ymwneud ag ADCDF o fewn pynciau ei asesu o fewn y pynciau hynny. Os yn briodol caiff peth o'r gwaith ei asesu'n ffurfiol ond bydd mwyafrif llethol y gwaith yn cael ei asesu'n anffurfiol. Rhennir unrhyw lwyddiannau arwyddocaol gyda rhieni.

ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU ARWAIN A RHEOLI

Enwebwyd llywodraethwr cyswllt gyda chyfrifoldeb dros ADCDF, sef Llinos Jones ac ef/hi yw'r cyswllt cyntaf ar gyfer y maes ar y corff llywodraethu. Mae gan aelod o staff, sef Sharon Jones gyfrifoldeb fel Cydlynydd ADCDF drwy'r ysgol a bydd yn monito'r ddarpariaeth o fewn y cwricwlwm. Cynhwysir ADCDF yn nhrefniadaeth hunan arfarnu'r ysgol.

CYDLYNU

Rôl y Cydlynydd ADCDF yw datblygu, codi ymwybyddiaeth, cefnogi a chydweithio i fonitro a hunan arfarnu’r maes. Caiff unrhyw anghenion a hyfforddinat eu hadnabod yn y CDY a’r cylch Rheoli Perfformiad.